Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 03.02.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Hyrwyddo a hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Ar y cyfan, rydym yn cytuno â'r cynigion i roi amodau ar waith i'w gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddynt. Mae'r cynigion yn gweithio at ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd addas i ddefnyddwyr cymwysterau, gan gynnwys dysgwyr, ysgolion a cholegau, o argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac rydym o blaid hyn. Rydym yn credu bod ychydig o bwyntiau i'w hystyried ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• bod holl agweddau'r amodau yn gadarn a chlir er mwyn sicrhau bod cyrff dyfarnu yn gweithredu'n llawn fel bod pob dysgwr/canolfan yn gallu cael mynediad llawn at ddogfennaeth, arweiniad ac adnoddau dwyieithog ymhob cymhwyster<br>• mynediad at ddysgu proffesiynol ac addysg gychwynnol athrawon o ansawdd uchel er mwyn gallu hyrwyddo ac addysgu cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus<br>• ystyried rhwystrau ffactorau economaidd-gymdeithasol fel tegwch a thlodi digidol wrth greu'r cymwysterau dwyieithog |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| # | **Cwestiynau** | |
|---|---|---|
| **Amodau a Gofynion** | | |
| 1 | I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ofyn i bob corff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg?<br><br>Eglurwch eich ateb isod.<br><br>Cytunwn yn gryf bod rhoi amodau ar waith i'w gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddynt yn bwysig. Er mwyn sicrahu chwarae teg a chyfle cyfartal i holl ddisgyblion ysgolion a cholegau Cymru, mae'n bwysig anelu at gael cynnig llawn o gymwysterau fydd yn gyfan gwbl ddwyieithog. Mae hyn eisoes ar waith trwy'r ymgynghoriad 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' ac felly mae'r dilyniant ar gyfer cyrsiau galwedigaethol a byd gwaith hefyd yn bwysig. | |
| 2 | I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ofyn i gyrff dyfarnu sy'n cynnig | |

| | | |
|---|---|---|
| | cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg i hyrwyddo argaeledd y cymwysterau hynny a hwyluso mynediad iddyn nhw?<br><br>Eglurwch eich ateb isod.<br><br>Cytunwn eto â'r datganiad yma. Unwaith eto, mae'n bwysig fod gan bob dysgwr yng Nghymru fynediad llawn at yr holl gymwysterau a hynny yn y Gymraeg fel y Saesneg.<br><br>Mae hefyd yn hanfodol bod pob cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog er mwyn diwallu gofynion polisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'.<br><br>Bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a bydd yn cefnogi Cymru i sicrhau dewis teg, cydlynol, a dwyieithog o gymwysterau i bob plentyn 16 oed ac uwch.<br><br>Bydd yn bwysig bod pob dysgwrcanolfan yn gallu cael mynediad at ddogfennaeth, arweiniad ac adnoddau dwyieithog ar yr un pryd i sicrhau bod y nod hwnnw'n cael ei gyflawni. Yn sgil hyn, mae'n bwysig hefyd sicrhau fod y cyrff dyfarnu yn cynnig cefnogaeth lawn o ran datblygiad proffesiynol er mwyn hyfforddi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau'n llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. | |
| 3 | I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gyflwyno gofynion sylfaenol rydyn ni yn eu hystyried yn angenrheidiol i gorff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Amodau arfaethedig?<br><br>Eglurwch eich ateb isod.<br><br>Rydym yn cytuno â'r cynnig bod y cyrff dyfarnu yn cydymffurfio â'r Amodau arfaethedig. Byddai'r Amodau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi a thrwy hyn gellid trosgwlyddo gwybodaeth agored, cywir a chlir i ddysgwyr a defnyddwyr cymwysterau. Yn ogystal, byddai pwyslais mawr fod y polisi yma'n cael ei adolygu'n gyson a'i ddiwygio lle bo'n briodol hefyd o fudd. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn 3.6 ei bod hi'n ofyn statudol i'r cyrff dyfarnu fabwysiadu'r amodau yn llawn gan fod hyn yn seiliedig ar gostau. Byddai mwy o gadarnhad yma | |

| | | |
|---|---|---|
| | o ddisgwyliadau Cymwysterau Cymru yn fanteisiol.<br><br>Er bod rhyddid i gyrff dyfarnu ddewis pa weithgareddau hyrwyddo fyddai fwyaf addas iddynt, mae'n bwysig fod Cymwysterau Cymru yn sicrhau fod y cyrff dyfarnu yn bodloni ei gofynion. | |
| 4 | I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynnwys y gofynion hyn fel rhan o'n Hamodau Cydnabod Safonol?<br><br>Eglurwch eich ateb isod.<br><br>Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i gynnwys y gofynion fel rhan o'r Amodau Cydnabod Safonol. Trwy wneud hyn, mae'n sicrhau fod y cyrff dyfarnu a'u cymwysterau yn gorfod bodloni rheolau wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'n ffordd o sicrhau bod pob cymhwyster a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer Cymru yn y dyfodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a bod pob dysgwr/canolfan yn gallu cael mynediad at ddogfennaeth, arweiniad ac adnoddau dwyieithog ar yr un pryd. | |
| 5 | I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig ar gyfer cyfnod cychwynnol o 12 mis i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Amodau a'r gofynion arfaethedig?<br><br>Eglurwch eich ateb isod.<br><br>Credwn fod cyfnod cychwynnol o 12 mis yn briodol. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r newidiadau o ran 'cymwys ar gyfer y dyfodol' ac yn rhoi cyfle i ysgolion a cholegau weld a deall yr arlwy sydd ar gael iddynt o ran cymwysterau. Mae'n bwysig bod ysgolion a cholegau yn cael cyfle i baratoi a datgan unrhyw gonsyrn mor fuan â phosib er mwyn sicrhau fod y cymwysterau newydd a ddaw i rym yn rhedeg mor effeithiol â phosib. Mae angen amser ar athrawon hefyd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fanylebau newydd a'r cyfle i gydweithio a chynllunio gyda chyfoedion. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n gweithio mewn ysgolion bach neu adran un athro. Mae mynediad at ddysgu proffesiynol ac addysg gychwynnol athrawon o ansawdd uchel yn hanfodol i'w gweithredu'n llwyddiannus. Rhaid cofio bod recriwtio a dysgu proffesiynol i gefnogi | |

| | | |
|---|---|---|
| | addysgu cyfrwng Cymraeg effeithiol yn ddau faes allweddol sy'n creu heriau.<br><br>Mae'n bwysig hefyd bod yr holl ganllawiau yn yr 'Asesiad Effaith Integredig' yn glir a chadran i sicrhau bod y cyrff dyfarnu yn cydymffurfio'n llawn ac nid yn rhannol gyda'r amodau a gofynion arfaethedig.<br><br>. | |
| **Canllawiau** | | |
| 6 | Oes meysydd nad ydyn nhw wedi eu cynnwys yn ein canllawiau arfaethedig yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys?<br><br>Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar ein canllawiau arfaethedig?<br><br>Credwn y dylai Cymwysterau Cymru anelu at sicrhau bod pob cymhwyster a ddatblygir yn benodol ar gyfer Cymru yn y dyfodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae'n bwysig ystyried wrth greu ymgyrch farchnata bod y cyrff dyfarnu yn dangos diben a buddion y cymhwyster hwn i ddysgwyr, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid eraill e.e. cyflogwyr.<br><br>Mae'n bwysig hefyd ystyried pwysigrwydd datblygiad proffesiynol er mwyn hyfforddi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau'n llwyddiannus a'u hargaeledd trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Credwn hefyd mor bwysig yw bod y cymwysterau dwyieithog yma ar gael ar gyfer ein hysgolion law yn llaw a'n colegau. Mae gofid hyd yma, fod rhai cymwysterau fel gofal plant yn eithrio ysgolion. Rhaid cofio bod nifer sylweddol o'n dysgwyr yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion yn ogystal â'r colegau.<br><br>Mewn sefyllfa gyllidol ofidus, mae'n bwysig fod mynediad cyfartal gan yr holl randdeilaiid at gyrsiau dwyieithog a bod modd i ysgolion cyfrwng Cymraeg dderbyn cyllid am gynnig cyrsiau sydd ag unedau dwyieithog. | Ymateb Agored |
| **Effeithiau Rheoleiddiol** | | |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Darparwch unrhyw sylwadau ynglŷn â'r effeithiau rheoleiddiol sy'n cael eu nodi.<br><br>Oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol, gan gynnwys costau, arbedion neu fanteision eraill, nad ydyn nhw wedi eu nodi sy'n codi o'r cynigion? Os oes, beth yw'r effeithiau ac a oes unrhyw gamau ychwanegol allai gael eu cymryd i leihau effaith rheoleiddiol y cynigion?<br><br>Darparwch amcangyfrif o ffigurau o ran costau lle y bo'n bosibl.<br><br>Mewn sefyllfa gyllidol ofidus, mae'n bwysig fod mynediad cyfartal gan yr holl randdeiliaid at gyrsiau dwyieithog a bod modd i ysgolion cyfrwng Cymraeg dderbyn cyllid am gynnig cyrsiau sydd ag unedau dwyieithog.<br><br>Bydd hefyd angen cyfuniad o wybodaeth, sgiliau pwnc a sgiliau addysgegol ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus. Bydd angen offer ac adnoddau arbenigol ar ysgolion hefyd er mwyn i ddysgwyr allu ymgysylltu â phob agwedd o'r cymwysterau. Rhaid cofio bod recriwtio staff arbenigol i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg effeithiol yn faes allweddol sy'n creu her.<br>Nid yw'r cynigion yn cydnabod yn llawn yr holl heriau posibl mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer a gweithredu'r gyfres newydd o gymwysterau yn effeithiol. | Ymateb Agored |
| **Effeithiau Cydraddoldeb**<br><br>Rydyn ni wedi nodi ffyrdd y gallai ein Hamodau a'n gofynion arfaethedig effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol (e.e. anabledd, hil, rhywedd, crefydd neu gred), a'r rheini sydd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig. | | |
| 8 | Rhowch unrhyw sylwadau ar yr effeithiau cydraddoldeb sy'n cael eu nodi.<br><br>Oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydyn ni wedi eu nodi eto? Os felly, beth ydyn nhw a pha gamau ychwanegol allai gael eu cymryd i leihau unrhyw effaith negyddol ar y bobl yna?<br><br>Mae angen eglurder pellach ar gyrff dyfarnu ynghylch y trefniadau ar gyfer cymwysterau a | Ymateb Agored |

| | | |
|---|---|---|
| | darpariaeth o adnoddau digidol, yn enwedig wrth ystyried rhwystrau ffactorau economaidd-gymdeithasol fel tegwch a thlodi digidol. Gallai cymwysterau ar y sgrîn hefyd brofi'n anodd i rai ysgolion, o ran adnoddau yn enwedig o ystyried cyllidebau a chysylltedd gwe ysgolion. | |
| **Effeithiau ar y Gymraeg**<br>Rydyn ni wedi nodi ffyrdd y gallai ein Hamodau a'n gofynion arfaethedig effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | |
| 9 | Rhowch unrhyw sylwadau ar yr effeithiau ar y Gymraeg sy'n cael eu nodi.<br>Sut allai effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg gael eu cynyddu, neu sut mae modd lleihau effeithiau negyddol?<br>Oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydyn ni wedi eu nodi? Os felly, beth ydyn nhw?<br><br>Mae'n hanfodol bod pob cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog er mwyn diwallu gofynion polisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a bydd yn cefnogi Cymru i sicrhau dewis teg, cydlynol, a dwyieithog o gymwysterau i bob plentyn 16 oed.<br>Bydd yn bwysig bod pob dysgwr/canolfan yn gallu cael mynediad at ddogfennaeth, arweiniad ac adnoddau dwyieithog ar yr un pryd i sicrhau bod y nod hwnnw'n cael ei gyflawni.<br>Credwn y dylai Cymwysterau Cymru fonitro a gwirio bod pob cymhwyster a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer Cymru yn y dyfodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | Ymateb Agored |